Meddygfa Rhydlafar
CYLCHLYTHYR Hydref 2026

Rydym wrth ein bodd yn rhannu'r newyddion cyffrous bod Meddygfa Rhydlafar bellach yn barod i agor ei drysau i gleifion a'r gymuned leol. Ar ôl blynyddoedd o gynllunio ac adeiladu, bydd y buddsoddiad pwysig hwn mewn gofal iechyd lleol yn darparu cyfleusterau modern, pwrpasol wedi'u cynllunio i gefnogi anghenion cynyddol ein cymuned.

Diweddariad adeiladu

Ar ôl misoedd o waith caled, bydd y gwaith o adeiladu'r feddygfa wedi dod i ben, gan nodi carreg filltir o ran darparu gwasanaethau gofal sylfaenol modern a seilwaith i'r gymuned leol.

Bydd y feddygfa newydd yn agor yn swyddogol i gleifion a'r cyhoedd **Dydd Mercher 11 Tachwedd*,** gan gymryd lle'r cyfleusterau dros dro ym Mhentyrch sydd wedi gwasanaethu'r boblogaeth leol ers dros ddegawd. Mae'r cyfleuster newydd wedi'i gynllunio i ddarparu lle ychwanegol ar gyfer gofal cleifion, cefnogi'r galw am wasanaethau yn y dyfodol a chreu cyfleoedd ar gyfer gwasanaethau gofal iechyd ehangach.

*Symudwyd y dyddiad agor o ddydd Llun 9 Tachwedd er mwyn caniatáu i'r trefniadau trosglwyddo terfynol gael eu cwblhau.

Manylion Cyswllt

Cyfeiriad y Feddygfa Newydd: Meddygfa Rhydlafar
Rhydlafar Drive
Sain Ffagan
Rhydlafar
Caerdydd CF5 6HU
Rhif ffôn: 029 2057 6675

Gwasanaethau ar gael

Mae'r cyfleuster newydd wedi'i gynllunio i gefnogi dull amlddisgyblaethol o ymdrin â gofal iechyd, gan alluogi timau i gydweithio a darparu gofal cydlynol yn agosach at y cartref.

Mae'r gwasanaethau sydd ar gael yn y feddygfa yn cynnwys:
- Apwyntiadau meddyg teulu
- Clinigau nyrsio
- Gwasanaethau nyrsio ardal a gwasanaethau anymataliaeth
- Clinig Babanod
- Clinig steroidau
- Clinig iechyd rhywiol a gosod coil

"Mae hon yn garreg filltir arwyddocaol i'n practis. Bydd ein meddygfa bwrpasol newydd yn ein galluogi i gynnig ystod ehangach o wasanaethau clinigol a holistaidd mewn amgylchedd modern a chroesawgar, gan ein helpu i ddarparu gofal o ansawdd hyd yn oed yn uwch i'n cymuned.

Rydym yn hynod gyffrous am y cam nesaf hwn ac yn edrych ymlaen at groesawu ein cleifion presennol a chleifion newydd i'n cartref newydd." – Tracey Enright, Rheolwr Practis ym Meddygfa Rhydlafar.

Cynllun Cludiant Cleifion

Rydym yn deall bod trefniadau teithio yn bwysig i lawer o gleifion ac rydym yn cydnabod bod mynediad i'r feddygfa yn bryder pwysig i lawer o drigolion.

Cytunwyd y byddai'r bwrdd iechyd yn hwyluso gwasanaeth tacsi i sicrhau mynediad a thriniaeth gyfartal i bawb waeth beth fo'u hangen am drafnidiaeth am gyfnod cychwynnol o 12 mis i fesur y galw. Bydd hyn yn llywio ateb trafnidiaeth gymunedol tymor hwy. Mae taflen wybodaeth i gleifion ar wahân ar gael.

Mae'r canlynol yn disgrifio sut y bydd y gwasanaeth tacsi yn gweithio:

1. Cysylltu â'r feddygfa
Pan fyddwch chi'n cysylltu â'r feddygfa, bydd y triniwr galwadau yn gofyn am eich pryder iechyd.
Asesiad gan y triniwr galwadau
Bydd y triniwr galwadau yn casglu'r wybodaeth ganlynol:

- Natur eich pryder iechyd
- A yw apwyntiad wyneb yn wyneb yn briodol, neu
- Os yw llwybr amgen (heb fod wyneb yn wyneb) yn addas.

Os oes angen apwyntiad wyneb yn wyneb, bydd apwyntiad yn cael ei drefnu.

Rhaid i glaf sydd angen cludiant hysbysu'r triniwr galwadau. Os oes angen cludiant, bydd yr apwyntiad yn cael ei drefnu ar gyfer yn hwyrach yn y bore neu ddechrau'r prynhawn.

Os NAD oes angen apwyntiad wyneb yn wyneb, fel gyda phob claf, efallai y cynigir y canlynol i chi:

- Cynllun Mân Anhwylderau (gwasanaethau fferyllfa)
- Ymgynghoriad dros y ffôn / fideo
- Anfon lluniau drwy e-bost
- Atgyfeiriad at wasanaeth arall
- Optegydd neu ddeintydd

2. Adolygiad clinigol
Caiff pob apwyntiad wyneb yn wyneb ei adolygu gan glinigwr a fydd yn cysylltu â'r claf os oes llwybr amgen ar gael.

3. Noder
Os nad oes gennych unrhyw fath o gludiant, bydd y feddygfa yn trefnu tacsi i chi. Darperir cludiant ar gyfer angen clinigol, nid hwylustod.
Trefnu tacsi:

- Trefnir eich casglu ar ddiwedd meddygfa'r bore neu ddechrau meddygfa'r prynhawn.
- Trefnir teithiau grŵp lle bo modd.
- Man codi Pentyrch fydd y safle bws (gyda chysgodfan) gyferbyn â siop Premier ar High Corner.
- Byddwch yn cael gwybod faint o'r gloch y cewch eich casglu a manylion am eich taith adref, os oes angen.
- Mae'r practis yn cofnodi'r defnydd o gludiant at ddibenion archwilio.

Hoffem glywed gennych

Wrth i'r feddygfa agor ei drysau, rydym am barhau i glywed gan gleifion, preswylwyr a grwpiau cymunedol. Mae eich adborth yn ein helpu i lunio a gwella'r gwasanaethau a ddarparwn. Cysylltwch â'r tîm drwy e-bost neu drwy lythyr.

E-bost: CAV.Engagement.Cav@wales.nhs.uk

Llythyr:
Prosiect Meddygfa Rhydlafar
Tîm Cynllunio Strategol a Gwasanaethau
Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
Tŷ Coetir
Ffordd Maes-y-Coed
Caerdydd CF14 4HH

Ymweld â'r cyfleuster newydd

Bydd cyfle i aelodau'r gymuned weld y feddygfa newydd, sgwrsio â'r tîm a rhoi adborth ar syniadau ac awgrymiadau yn y digwyddiadau ymgysylltu sydd ar ddod:

• Bydd y tîm yn cynnal cyfres o foreau coffi i groesawu cleifion i'r adeilad newydd a chwrdd â'r tîm

• Bydd teithiau tywys hefyd ar gael i gleifion y feddygfa.

Os oes gennych ddiddordeb mewn mynychu'r sesiynau hyn, cysylltwch â'r feddygfa i gael gwybod mwy.

Diolch

Diolch i'r preswylwyr, cleifion a grwpiau cymunedol sydd wedi ein cefnogi ac ymgysylltu â ni drwy gydol datblygiad Meddygfa Rhydlafar.

Am y diweddariadau a'r wybodaeth ddiweddaraf, ewch i wefan Meddygfa Rhydlafar.

Edrychwn ymlaen at eich croesawu i Feddygfa Rhydlafar.

